Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 13eg o Fedi 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Owen James, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Robert Jones.
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Gordon Kilby

Cof 129 / Medi / 17 Datganiadau o Fuddiant. Dim

Cof 130 / Medi / 17 Cyfrifon i'w Talu

Cyfrifon i'w Talu	Net	TAW	Cyfanswm
CGGC (gwein cyflogres Awst)	£ 20.25	£ 4.05	£ 24.30*
Hugh Gwynne (Parc Le Conquet) sbwriel	£ 160.00	£ 32.00	£ 192.00*
Hugh Gwynne (Parc Penlan) glaswellt	£1,280.00	£ 256.00	£ 1,536.00*
Hugh Gwynne (Parc Penlan) sbwriel	£ 80.00	£ 16.00	£ 96.00*
Hugh Gwynne (Parc Le Conquet) glaswellt	£1,360.00	£ 272.00	£ 1,632.00*
Morgan & Morgan (inc i'r argraffydd)	£ 38.90	£ 7.79	£ 46.68*
Orchardweb (diweddaru'r wefan)	£ 45.00		£ 45.00*
Orchardweb (ailwampio'r wefan)	£ 145.00		£ 145.00*
Wynnstay Agricultural (VIS)	£ 3.59		£ 3.59
GT Locksmith (allweddi parc) (VIS)	£ 17.00		£ 17.00
Swyddfa Bost (VIS)	£ 6.72		£ 6.72

Bacs * Siec #

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Dawn Wallace ac eiliwyd gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

Cof 130 / Medi / 17 Incwm a dderbyniwyd ers y 12fed o Orffennaf 2017 hyd yn hyn

Arian parod / Sieciau (elusen y Maer)	£ 257.43
Llog Banc	£ 40.17
CSG Parc Penlan	£ 19,802.00
HMRC (ad-daliad TAW)	£ 7,434.42
Praesept CSG	£ 19,705.67

Cof 131 / Medi / 17 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 12/09 /17)	£ 48,444.55
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 12 /09/17)	£ 1,958.05
Cyfrif Maer CTLl (Barclays)(12/09/17)	£ 2,654.46

Bond Adnau Llog Uchel £ 30,000.00

Cof 132 / Medi / 17 Materion Ariannol Eraill

1. Ceisiadau am Gymorth Ariannol
   i) Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr. Cytunwyd i beidio â chefnogi'r cais hwn, oherwydd bod y Cyngor yn cefnogi Clwb Ffermwyr Ifanc Llandeilo.
2. Adroddiad y Swyddog Cyllid
   Roedd Mr Plummer wedi dosbarthu dadansoddiad o wariant Cyllideb y Cyngor, ac yr oedd wedi gofyn i'r Cynghorwyr i'w astudio'n fanwl. Roedd angen bod yn fwy darbodus yn y blynyddoedd ariannol sydd y ddod, yn enwedig yn 2018/19 a 2019/20, a bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Medi, i ganfod lle gellid arbed arian.
3. Dywedodd y Swyddog Cyllid nad oedd eto wedi clywed gan yr Archwilydd Allanol am gwblhau'r Archwiliad eleni. Fe wnaeth atgoffa'r cyfarfod fod y Cyngor wedi cytuno i gymryd benthyciad o £125,000 gan y Bwrdd Benthyciadau Cyhoeddus, i gwblhau'r gwaith atgyweirio angenrheidiol i Neuadd y Sir, a gofynnodd i'r Aelodau i astudio'r ffigyrau.
4. Roedd y Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol wedi argymell wrth y Pwyllgor Cyllid eu bod yn caniatáu'r Clerc i wneud cais am grantiau i brynu Diffibrilwyr i'w gosod mewn ardaloedd Cyhoeddus yn y Dref. Roedd wedi derbyn caniatâd, ar bapur, gan berchenogion 3 adeilad, sef Yr Hen Vic, Gosaf Betrol Llandeilo ac archfa maes parcio CSG, i'w gosod nhw tu allan i'w hadeiladau nhw. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod dau adeilad ychwanegol yn cael eu cynnwys, h.y. Y Pafiliwn Bowls / Parc Le Conquet a Neuadd y Sir.
   Cynigodd y Cyng. Dawn Wallace bod caniatâd yn cael ei roddi i'r Clerc i wneud cais am y grantiau priodol, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Geraint Price. Roedd pawb o blaid.

Cof 133 / Medi /17 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

1. Ian Edwards CSG, mewn perthynas ag archwiliadau blynyddol o ardaloedd chwarae cyhoeddus. Roedd CSG yn cynnig yr archwiliad blynyddol hwn am £80 plws TAW. Cynigodd y Cyng. Dawn Wallace bod CSG yn cynnal yr archwiliad eleni, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Geraint Price. Roedd pawb o blaid.
2. Nigel Davies, Cadeirydd Sefydliad Llenyddol a Neuadd Gyhoeddus Llandeilo, ar y 5ed o Fedi. Roedd eu pwyllgor wedi gofyn i'r Cyngor Tref i symud eu holl offer o'r adeilad, gan nad oedd y Cyngor wedi cytuno i'w ffioedd rhent newydd. Roedd anfoneb am £271, am chwe mis o rent a'r trydan a ddefnyddiwyd, yn amgaeëdig. Cytunwyd byddai'r Cyngor yn symud yr offer i gyd oddi yna, a gofynnwyd i'r Swyddog Technegol i drefnu i'r offer gael eu storio yn Neuadd y Sir.
3. Nigel Davies, Cadeirydd Sefydliad Llenyddol a Neuadd Gyhoeddus Llandeilo, llythyr yn dweud bod y tri aelod o'r pwyllgor a oedd yn weddill wedi ymddiswyddo. Roedd Mr Davies wedi cynnwys allweddi'r adeilad.
   Gwnaethpwyd y cynigion canlynol :-
   a) Bod yr allweddi'n cael eu dychwelyd i Mr Davies, gan nad yw'r Cyngor yn gyfrifol o gwbl am yr adeilad. Cynigwyd gan y Cyng. Robert Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Eifion Davies. Roedd pawb o blaid.
   b) Bod y Cyngor yn gofyn i ymddiriedolwyr y Sefydliad i ysgrifennu at y Cyngor, i ofyn am gyfarfod rhwng yr Ymddiriedolwyr, y cyn-bwyllgor rheoli a'r Cyngor. Cynigwyd gan y Cyng. Eifion Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid.
   c) Bod y Cyngor yn cadw'r anfoneb nes i broblemau'r Sefydliad gael eu datrys. Cynigwyd gan y Cyng. Eifion Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cof 134 / Medi / 17 Doedd dim Goblygiadau Ariannol i Adroddiad y Swyddog Technegol.

Cof 135 / Medi / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45yh.